CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'u gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau cwblhau
Mae Cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran. Fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (uchafswm).

Cynghorydd: **David A Bithell** **Plaid: Annibynnol**

Ward: Johnstown

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau canlynol (darparwyd y ffigurau presenoldeb gan CBSW):

1. Bwrdd Gweithredol (Aelod Arweiniol Amgylchedd a Chludiant)
2. Bwrdd Gweithredol Ymddiriedolaethau Corfforaethol
3. Is-grŵp y Bwrdd Gweithredol (Deddf Delwyr Metel Sgrap)
4. Arweinydd Grŵp Annibynnol Wrecsam
5. Gweithgor Aelod y Rheilffordd Lleol
6. Bwrdd Ail-lunio Gwasanaethau
7. Y Cyngor Llawn
8. Panel Tâl a Gwobrwyo
9. Gweithgor Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol
10. Cadeirydd Grŵp Cynghori Cludiant - Bwrdd Uchelgais Economaidd

Rwyf yn aelod o'r pwyllgorau allanol canlynol

1. Cyngor Cymuned Rhos
2. Pwyllgor Rheoli Canolfan Adnoddau Johnstown
3. Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Y Hafod Johnstown
4. Cyd-Gadeirydd Grŵp Cyswllt Hafod

Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth:

1. Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgolion – gweithio gyda'r Pennaeth, staff a llywodraethwyr gan gefnogi'r ysgol drwy Archwiliad Estyn.
2. Cadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda thrigolion lleol drwy gyhoeddi newyddlenni rheolaidd.
3. Gweithio'n ddyddiol gyda nifer o achosion unigol ac ymateb i etholwyr.
4. Parhau i gefnogi trigolion gyda chynlluniau parcio oddi ar y ffordd fel rhan o arian amgylcheddol tai.
5. Parhau i gysylltu gyda busnesau lleol gan gynnwys Stâd Ddiwydiannol Vauxhall.
6. Gweithio i atal beiciau modur rhag dod i Barc Gwledig Bonc yr Hafod – ymchwilio i osod giât newydd.

7. Ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Adran Tai ar Raglen Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi'r cyngor, sef y rhaglen fwyaf o £54 miliwn.
8. Mae hyn wedi arwain at lwyth gwaith uwch o ran cysylltu gyda thenantiaid a chontractwyr y Cyngor a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2017.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:

1. Gweithio gyda swyddogion Tai ar brosiectau Mantais Gymunedol sy'n rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda gwaith Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi Novus.

Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd:

2. Mynychu sesiynau hyfforddi rheolaidd a ddarperir gan y cyngor yn ogystal â nifer o weithdai cyllido a gwybodaeth yn ystod y flwyddyn galendr.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:

1. Fel Aelod Arweiniol Amgylchedd a Chludiant mae gen i gyfrifoldeb arweiniol a fi yw prif lefarydd gwleidyddol yr adran.
2. Rwy'n paratoi ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac yn ateb cwestiynau fel bo'r angen. Aelod Cyngor Wrecsam ar Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.
3. Arweinydd Grŵp Annibynnol Wrecsam – mewn cysylltiad ag aelodau a swyddogion amrywiol er mwyn gweithredu'r swyddogaeth.
4. Prif lefarydd ein Grŵp yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn.
5. Ymgysylltu gyda chyrff amrywiol ac Aelodau'r Cynulliad ar faterion yn ymwneud â'r cyngor.
6. Cadeirydd Grŵp Cynghori Cludiant Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
7. Gweithio gydag Adran yr Amgylchedd ar yr adolygiad Gwastraff newydd sy'n cynnwys cyflwyno mwy o flychau troli a chynhwysyddion gwastraff bwyd newydd i gartrefi er mwyn gwella cyfradd ailgylchu cyngor Wrecsam sy'n parhau i wella.
8. Gweithio ar orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus sirol ar gyfer y cyngor ynglŷn â chŵn ar dennyn.
9. Ymateb i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru yn fy Rôl fel Aelod Arweiniol.
10. Wedi gweithio gyda swyddogion yn ystod y flwyddyn er mwyn adfer sawl llwybr bws yn dilyn tranc GHA coaches.
11. Wedi gweithio i gefnogi arian ar gyfer Cyflwyno llwybr beiciau newydd a mynediad cerddwyr a arweiniodd at agor y ffordd newydd at Ysbyty Maelor Wrecsam, roedd hyn yn rhan o'r Grant Cludiant Lleol.

Llofnod y Cynghorydd: David A Bithell **Dyddiad:25/09/2017**